

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor  
Archwilio Perfformiad

Dyddiad: 11 Mawrth 2016

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD, DYDD IAU, 17 MAWRTH 2016** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **1 YMDDIHEURIADAU**

### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 16)

Cael cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2016 (copi ynghlwm).

### **5 CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 3 2015/16** (Tudalennau 17 - 60)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu'r Cynllun Corfforaethol, a oedd eisoes wedi'i ddsbarthu.

**9.35 a.m. – 10.10 a.m.**

## **EGWYL GYSUR**

### **6 ADRODDIAD EICH LLAIS – CHWARTER 3 2015/16** (Tudalennau 61 - 78)

Ystyried copi o adroddiad gan y Swyddog Cwynion Corfforaethol, sy'n darparu trosolwg o'r canmoliaethau, awgrymiadau a'r cwynion y mae Cyngor Sir Ddinbych wedi eu derbyn dan bolisi adborth cwsmeriaid y cyngor, 'Eich Llais', yn ystod Chwarter 3 2015/16, wedi'u dosbarthu yn flaenorol.

**10.20 a.m. – 10.55 a.m.**

### **7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 79 - 96)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi wedi'i amgáu) yn gofyn am adolygiad o raglen waith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**10.55 a.m. – 11.10 a.m.**

### **8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**11.10 a.m. – 11.20 a.m.**

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Barry Mellor  
(Cadeirydd)

Meirick Davies  
Richard Davies  
Colin Hughes  
Geraint Lloyd-Williams

Peter Owen  
Dewi Owens  
Arwel Roberts  
Gareth Sandilands

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

## PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 28 Ionawr 2016 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr Meirick Davies, Richard Davies, Colin Hughes, Barry Mellor (Cadeirydd), Dewi Owens, Arwel Roberts a Gareth Sandilands

Aelodau Cyfetholedig – roedd Debra Houghton, Dawn Marjoram, John Piper a Gareth Williams yn bresennol ar gyfer Eitemau 6, 7 a 8 ar y Rhaglen.

Aelodau'r Cabinet – roedd Y Cynghorydd Eryl Williams yn bresennol ar gyfer Eitemau Agenda 6, 7 ac 8 ar y Rhaglen a mynychodd y Cynghorydd Hugh Irving ar gyfer Eitem 9 ar yr Agenda.

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau (NS); Pennaeth Addysg (KE); Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion (JM); Rheolwr Addysg, Cynllunio ac Adnoddau (IL); Rheolwr Cludiant Teithwyr (PD); Prif Reolwr Cefnogaeth Busnes (TW); Swyddog Cwynion Corfforaethol (CO); Cydlynnydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

Huw Foster Evans, Rheolwr Gyfarwyddwr - GwE  
Marc Berw Hughes, Uwch Ymgynghorydd Her Hwb Conwy / Sir Ddinbych - Gwe

Sian Clark - Swyddfa Archwilio Cymru (Arsylwr)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Geraint Lloyd-Williams a Peter Owen ynghyd â'r Aelod Cyfetholedig Gill Greenland

## 2 DATGANIAD CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol yn eitemau 6, 7 ac 8 ar yr agenda –

Y Cynghorydd Meirick Davies – Llywodraethwr Ysgol Cefn Meiriadog ac Ysgol Trefnant

Y Cynghorydd Richard Davies – Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Plas Brondyffryn

Y Cynghorydd Dewi Owens – Llywodraethwr Ysgol Glan Clwyd a St. Asaph VP Infants

Y Cynghorydd Arwel Roberts – Llywodraethwr Ysgol y Castell ac Ysgol Dewi Sant

Y Cynghorydd Gareth Sandilands – Llywodraethwr Ysgol Clawdd Offa

Datganodd yr aelodau cyfetholedig canlynol gysylltiad personol fel a ganlyn –

Debra Houghton – eitemau 7 ac 8 yr agenda – Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Pendref

Dawn Marjoram – eitem 8 yr agenda – Llywodraethwr Ysgol Plas Brondyffryn

John Piper – eitemau 6 ac 8 yr agenda – Llywodraethwr Ysgol Tremeirchion ac mae ei blentyn yn defnyddio cludiant ysgol am ddim

### **3 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau am Is-gadeirydd i'r Pwyllgor am weddill blwyddyn fwrdeistrefol 2015/16. Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Sandilands, eiliodd y Cynghorydd Meirick Davies i'r Cynghorydd Arwel Roberts fod yn Is-gadeirydd. Yn absenoldeb unrhyw enwebiadau eraill ac o gael ei roi i bleidlais -

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd Arwel Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar gyfer gweddill blwyddyn fwrdeistrefol 2015/16.

### **4 MATERION BRYD**

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

### **5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2015.

#### **Materion yn Codi –**

Tudalen 11 – Eitem 6 y Cynllun Corfforaethol (Chwarter 2 2015/16) – Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Dewi Owens, cadarnhaodd y swyddogion, er gwaethaf ymdrechion gorau'r cyngor, nad oeddent yn gallu darparu gwybodaeth am ollyngiadau carbon ar hyn o bryd oherwydd problem yn ymwneud â system anfon biliau'r darparwr ynni. Byddai'r mater yn cael ei ddatrys pan fyddai'r cyngor yn newid ei ddarparwr ynni ym mis Ebrill. O ran dangosyddion a bodloni targedau, rhoddwyd sicrwydd y gallai'r cyngor ddangos gostyngiad yn ei allyriadau carbon. Cytunwyd rhoi rhagor o wybodaeth i'r Cynghorydd Owens yn hynny o beth.

**PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2015 fel gwir gofnod.

### **6 CLUDIANT YSGOLION CYNRADD**

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi eglurhad ar y polisi'n ymwneud â Chludiant Ysgolion Cynradd a'i ddefnydd. Gofynnwyd am yr adroddiad gan y Cynghorydd Arwel Roberts yng ngoleuni'r newidiadau diweddar i'r ddarpariaeth cludiant yn ardaloedd Rhuddlan a Diserth ac roedd yn cynnwys cyfeiriad at y sail ddeddfwriaethol i ddarparu cludiant ysgol fel y manylir yn y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Rhodddwyd gwybod i'r aelodau nad oedd y polisi ar Gludiant Ysgolion Cynradd wedi newid yn ystod adolygiad diweddar Medi 2015. Fodd bynnag, yn dilyn yr adolygiad hwn, sicrhaodd y Gwasanaeth fod y cludiant Cynradd ac Uwchradd i'r 'ysgol addas agosaf' yn cael ei roi ar waith yn gywir. Canlyniad y defnydd cywir o'r polisi oedd y sefyllfa sydd wedi codi yn Rhuddlan. Roedd niferoedd y disgyblion oedd yn mynychu Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl o Ddiserth wedi cwmpo yn sgil y disgyblion yn mynychu Ysgol y Llys yn gywir. Felly, ailaseswyd y gwasanaeth o Ddiserth i Dewi Sant gan fod y cerbyd yn llawer gormod o faint ar gyfer y niferoedd oedd yn teithio arno. Roedd y gwasanaeth hwn yn dod trwy Ruddlan lle'r oedd rhai rhieni'n talu consesiwn bach i ddefnyddio'r bws; fodd bynnag, wrth newid maint y cerbyd, ni fyddai teithio am gonsesiwn bellach ar gael ac felly, cynhaliwyd asesiad o lwybrau cerdded diogel i'r ysgol o Ruddlan. Cynhaliwyd asesiad diogelwch newydd o'r llwybr yn ystod mis Rhagfyr 2015. Casglodd yr asesiad, oherwydd y cynnydd yng nghyfaint y traffig sy'n defnyddio'r A547 a achoswyd yn sgil cyflwyno traffig un lôn ar draws y bont yn Rhuddlan ei hun, na allai'r llwybr gael ei ystyried yn llwybr diogel i'r ysgol ar hyn o bryd. Gyda'r bwriad o leihau unrhyw risg i'r dyfodol yn yr ardal hon, roedd gwaith gwella'n cael ei gomisiynu i groesfan y ffordd. Yn dilyn cwblhau'r gwaith hwn, byddai diogelwch y llwybr yn cael ei ailasesu. Tan i'r gwaith gael ei wneud a'r llwybr ei ailasesu, bydd cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu i'r disgyblion sy'n cael eu heffeithio o ardal Rhuddlan.

Dyfyynnodd y Cynghorydd Arwel Roberts o Ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru diweddar i'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a gyfeiriodd at bwerau disgresiwn awdurdodau lleol i "ddarparu cludiant am ddim i ysgolion cyfrwng Cymraeg ni waeth beth yw'r meini prawf pellter er mwyn hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg" ac i'w "dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo mynediad i addysg trwy gyfrwng y Gymraeg wrth ymarfer eu swyddogaethau dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr 2008."

Cododd yr aelodau'r pwyntiau canlynol –

- dylai'r Awdurdod ddefnyddio'i bwerau disgresiwn yn yr ardal hon, oherwydd, er gwaetha'r gwelliannau arfaethedig i'r groesfan wrth Fryn Cwybr, byddai'r llwybr yn parhau i fod yn beryglus yn y fan honno a hefyd ym Mryn Cwnin
- gallai problemau tebyg ddigwydd mewn perthynas â llwybrau ysgolion cynradd eraill
- holwyd a oedd y polisi'n gyson â chanllawiau'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau
- cwestiynon nhw a oedd y defnydd o'r polisi yn yr achos penodol hwn yn gosod polisi cyn diogelwch y plant
- holwyd a oedd yr holl bolisiâu ym maes addysg yn cyd-fynd â'i gilydd, oherwydd yn yr achos hwn, ymddengys bod y polisi cludiant ysgolion cynradd yn groes i'r Polisi Cymraeg mewn Addysg.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, gwnaeth yr Aelod Arweiniol dros Addysg, y Pennaeth Addysg a'r Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg -

- bwysleisio nad oedd y polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer Ysgolion Cynradd wedi newid, ond roedd yn cael ei roi ar waith yn fwy trwyadl nag a wnaed yn y gorffennol

- rhoi gwybod bod defnydd y Cyngor o'r polisi'n gyson â darpariaethau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
- cadarnhau bod y llwybr presennol wedi'i ystyried yn anniegel tan i'r Gwasanaeth Priffyrdd ymgymryd â'r gwelliannau angenrheidiol ac ailasesu diogelwch y llwybr. Hyd nes i'r gwaith a'r asesiad hwnnw ddigwydd, byddai cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i'r disgyblion yr effeithir arnynt o ardal Rhuddlan
- pwysleisio nad oedd y Cyngor yn disgwyl i'r disgyblion gerdded ar eu pen eu hunain o'u cartrefi i'r ysgol nac i'r gwrthwyneb. Cyfrifoldeb y rhieni oedd cael disgyblion ysgol gynradd i'r ysgol, pan oeddent yn byw llai na 2 filltir o'r ysgol
- rhoi gwybod bod y wybodaeth am yr asesiad llwybr diogel ar gael petai'r aelodau am ei weld
- cadarnhau bod yr ysgol ar agor i drafod amrywiaeth o atebion i'r broblem h.y. bws cerdded, cynnwys y gymuned ac ati.

Tynnodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg sylw'r aelodau at oblygiadau posibl argymhell rhoi disgresiwn ar waith dan yr amgylchiadau penodol hyn, gan y byddai'n gosod cynsail anghynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth ar yr uchod, tynnodd y Rhiant-Lywodraethwr a'r Aelod Cyfetholedig ar gyfer y sector Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) sylw at faterion yn ymwneud â darpariaeth cludiant ysgol ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn y sir. Teimlai fod angen mwy o hyfforddiant ar yrwyr a hebryngwyr ysgol ar sut i ddelio gydag anghenion meddygol penodol a oedd yn fwy amlwg mewn disgyblion ADY cynradd ac uwchradd ill dau. Cydnabyddodd y Pennaeth Addysg fod hwn yn faes oedd angen ei adolygu. Rhoddodd wybod ei bod hi eisoes wedi cynnal trafodaethau rhagarweiniol gyda Rheolwr Cludiant Teithwyr y Cyngor yr wythnos flaenorol gyda'r bwriad o adolygu cludiant ysgol i ddisgyblion ADY.

Wrth gloi'r drafodaeth, cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts y dylai'r Cyngor ddefnyddio'i bwerau disgresiwn mewn perthynas â darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion Rhuddlan sy'n mynychu Ysgol Dewi Sant yn y Rhyl. Eiliodd y Cynghorydd Dewi Owens y cynnig a chefnogodd y Pwyllgor yr argymhelliad a roddwyd gerbron. Felly -

**PENDERFYNWYD** argymhell bod y Cyngor yn adolygu ei benderfyniad mewn perthynas â darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion o Ruddlan sy'n mynychu Ysgol Dewi Sant yn y Rhyl ac, yn unol â'i bwerau disgresiwn, yn trefnu teithio gyda chonsesiwn i'r disgyblion hynny nad oes ganddynt yr hawli i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.

## 7 CANLYNIADAU ARHOLIADAU CYFNOD ALLWEDDOL 4 AC ÔL 16

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Addysg ac Uwch Ymgynghorydd Her GwE (Porth Conwy/Sir Ddinbych) (dosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi manylion perfformiad wedi'i wirio canlyniadau arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16 gyda dadansoddiad o'r canlyniadau yn erbyn gwybodaeth a pherfformiad wedi'u meincnodi yn erbyn awdurdodau lleol eraill. [Ystyriwyd canlyniadau arholiadau dros dro gan y pwyllgor ym mis Hydref 2015].

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg ac Uwch Ymgynghorydd Her GwE yr adroddiad a rhoesant esboniad manwl o'i gynnwys i aelodau. Yn ystod eu cyflwyniad, pwysleision nhw –

- mewn perthynas â Throthwy Lefel 2 (5 TGAU A\*-C), roedden nhw wedi gobeithio y byddai pob ysgol yn chwarteli 1 neu 2, ond yn anffodus roedd 3 ysgol yn y 4edd chwartel oedd yn hynod siomedig
- ystyriodd y gwaith cenedlaethol o gategoreiddio ysgolion, a ddisodlodd y fethodoleg flaenorol o roi ysgolion mewn bandiau, ystadegau presenoldeb yr ysgolion. Roedd hi'n ddymunol adrodd na chwmpodd ysgolion Sir Ddinbych i'r 4ydd categori
- bod gwefan 'Fy Ysgol Leol' Llywodraeth Cymru ar gael o'r dyddiad presennol a oedd yn rhoi cyfoeth o wybodaeth am berfformiad, cefnogaeth ysgol a gwybodaeth gysylltiedig arall i rieni a gwarcheidwaid
- er bod presenoldeb Sir Ddinbych mewn ysgolion uwchradd wedi parhau'n sefydlog yn 2014 ar 93%, a raddiodd yr awdurdod lleol yn yr 21<sup>ain</sup> safle yng Nghymru o gymharu ag awdurdodau addysg leol eraill, roedd yr ardal hon yn gwella. Roedd y ffigurau presenoldeb cyfredol dros 94%
- ar hyn o bryd, roedd bechgyn a merched y sir yn perfformio ychydig yn ia na chyfartaledd Cymru ar gyfer Lefel 2 oedd yn cynnwys Saesneg/Cymraeg neu fathemateg, wrth i'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched fod yn unol â chyfartaledd Cymru
- mewn ymgais i osgoi amrywiaeth y llynedd rhwng y perfformiad amcanol a gwir berfformiad yr arholiadau, rhoddwyd nifer o fesurau ar waith yn lleol ac yn rhanbarthol - roedd y rhain yn cynnwys ysgolion unigol yn gosod eu targedau eu hunain, aseswyd a heriwyd y targedau hyn ar hyd y flwyddyn i sicrhau eu bod yn rymus ac yn debygol o gael eu bodloni; roedd strategaeth ranbarthol ar waith ar gyfer 'ysgolion mewn perygl' at y diben o dargedu'r gefnogaeth angenrheidiol i'r ysgolion hynny; ffurfiodd trafodaethau ar dargedau a pherfformiad ran o'r busnes ym mhob cyfarfod Fforwm y Penaethiaid a chafodd ei gynnwys hefyd mewn trafodaethau rheolaidd rhwng cynrychiolwyr Porth GwE a'r Penaethiaid Adrannau; nodwyd ysgolion sampl i gydweithio ar draws y rhanbarth, Cymru ac ymhellach i ffwrdd gydag adolygiad i rannu arfer gorau a byddai cynhadledd ranbarthol yn cael ei chynnal ar 12 Chwefror ar osod targedau, arfer gorau ac ati.
- ynghlwm â'r adroddiad roedd copi o nodau ac amcanion Cynllun Busnes GwE mewn perthynas â'r canlyniadau addysgol i fyfyrwyr Sir Ddinbych – manylodd hyn ar y gwaith oedd yn cael ei wneud ac yn cael ei gyflawni yn Sir Ddinbych i sicrhau gwell perfformiad a chanlyniadau
- y prif amcan cyffredinol ar gyfer 2015/16 oedd gwella perfformiad cynhwysol Lefel 2 o ffigur blwyddyn ddiwethaf o 56.1%, oedd yn siomedig, i 60.8%. Pe cyflawnir hyn, byddai'r swyddogion yn hynod bles. Nododd y wybodaeth gyfredol y byddai hyn yn cael ei gyflawni
- yn ystod blwyddyn academiaidd 2014/15, roedd nifer o ysgolion unigol yn Sir Ddinbych wedi cofrestru cwmp sylweddol mewn perfformiad. Gyda'r bwriad o gefnogi gwelliant yn yr ysgolion hyn, sefydlwyd 'bwrdd adfer' i fonitro'u perfformiad a nodi unrhyw bryderon yn gynnar. Cyflwynwyd rhybudd swyddogol i un ysgol wella.

Rhoddodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg wybod i'r Pwyllgor fod Aelodau Bwrdd Gwaith GwE yn siomedig gyda pherfformiad arholiadau 2014/15 ac o ganlyniad, rhoesant gyfarwyddyd i'r swyddogion weithio ar wella cyrhaeddiad. Pwysleisiodd hefyd fod Llywodraeth Cymru'n tueddu i ganolbwyntio'u sylw ar berfformiad cynhwysol Lefel 2 yn hytrach nag ar ddatblygu pob agwedd ar alluoedd y myfyrwyr, sef gweledigaeth yr Athro Donaldson ar gyfer addysg.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cododd yr aelodau ac uwch swyddogion y Cyngor y pwyntiau canlynol –

- yr angen am her effeithiol yng ngoleuni llithriant y llynedd mewn perfformiad
- yr angen am fformiwla ddibynadwy i gyfrifo'r sefyllfa prydau ysgol am ddim, y grant amddifadedd disgyblion, a'u cydberthyniad gyda pherfformiad addysgol cyffredinol
- cynaliadwyedd gwell perfformiad mewn rhai ysgolion heb gefnogaeth a mewnbwn ychwanegol parhaus
- pryderon mewn perthynas â phwysau ychwanegol sy'n cael eu rhoi ar bennaethiaid yn sgil disgwyliadau'r GwE ohonynt i asesu eu cyd-bennaethiaid a herio ysgolion eraill
- diffyg meincnodi ar gyfer ysgolion arbennig i'w cynorthwyo i gymharu eu perfformiad a'u canlyniadau gydag ysgolion arbennig eraill
- y risg sy'n gysylltiedig gan y defnydd o ffigurau canran i gamliwio ffigurau perfformiad cyffredinol
- pryderon nad oedd gwelliant mewn perfformiad ar draws Gogledd Cymru'n cael ei gyflawni mor gyflym â rhanbarthau eraill Cymru
- rôl y cyrff llywodraethu wrth herio a chefnogi gwelliant
- yr angen i fodloni'r targed o 60.8% a osodwyd ar gyfer 2015/16, neu fydd awdurdodau addysg lleol yn hynod siomedig â'r model effeithiolrwydd ysgolion rhanbarthol a'r gwasanaeth gwella, a
- phryderon mewn perthynas â recriwtio penaeithiaid o safon uchel a'u cadw i'r dyfodol.

Mewn ymateb i'r pwyntiau uchod, gwnaeth Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, yr Uwch Ymgynghorydd Her a'r Pennaeth Addysg –

- roi gwybod ers i GwE gael ei sefydlu tair blynedd yn ôl roedd canlyniadau arholiadau 2015 wedi gweld yr amrywiaeth fwyaf mewn ffigurau rhwng y canlyniadau targed a a'r gwir ganlyniadau yn Ysgol Gyfun y Rhyl, roedd yr amrywiaeth mewn ysgolion eraill yn rhai bach iawn
- cydnabod bod cynnydd a'r gyfradd wella ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol heb fod cystal ag yr oedd GwE wedi'u disgwyl, felly roedd angen rheoli tynnach ar asesiadau perfformiad i sicrhau bod y targedau disgwylidig yn agosach at y ffigurau canlyniad gwirioneddol. Tra'r oedd yr ysgolion yn rhagweld eu bod yn debygol o berfformio dros y ffigur targed o 60.8% eleni a gytunwyd gan GwE, roedd GwE wedi cytuno'r ffigur o 60.8% gyda nhw er mwyn darparu ar gyfer ffactorau annisgwyl a pherfformiad ysgolion arbennig. Byddai'r gwir ffigurau perfformiad yn dod yn llawer cliriach ar ddechrau mis Mawrth ar ôl cadarnhau canlyniadau ceisiadau cynnar Saesneg a Mathemateg. Eoedd y canlyniadau Mathemateg eisoes ar gael ac yn ffafriol



- cadarnhau bod gan gyrff llywodraethu yr ysgolion ran hanfodol i'w chwarae wrth wella ysgolion ar draws y bwrdd
- er yr ymddengys bod cyflawni targed o 60.8% yn 2015/16 yn arwydd o welliant sylweddol ar ganlyniadau 2014/15, teimlai'r swyddogion bod modd ei gyflawni oherwydd bu canlyniadau llynedd yn hynod siomedig. Er mwyn cyflawni'r targed a osodwyd, roedd angen i'r gwasanaeth sicrhau bod y strategaethau ymyrryd yn gweddu i anghenion y disgyblion unigol
- rhoi sicrwydd bod y penodiadau penaethiaid diweddar yn Sir Ddinbych wedi bod yn ymgeiswyr cryf iawn. Roedden nhw'n hyderus hefyd y byddai ganddynt gronfa ddigonol o ymgeiswyr yn gwneud cais am y ddwy swydd pennaeth ysgol uwchradd wag sy'n cael eu hysbysebu ar hyn o bryd, ond cydnabuwyd bod heriau cenedlaethol mewn perthynas â nifer y darpar ymgeiswyr penaethiaid. Mewn cyfarfod Bwrdd Gwaith diweddar, trafododd GwE yr angen i gael digon o unigolion gyda chymwysterau addas ym mhob maes addysg i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl, yn ogystal ag argaeledd cyfleoedd am welliant parhaus a datblygiad personol i bobl yn y proffesiwn i sicrhau ei gynaliadwyedd tymor hir.

Wrth gloi'r drafodaeth –

**PENDERFYNODD** yr aelodau wneud y canlynol yn amodol ar yr arsylwadau uchod -

- (a) derbyn y wybodaeth am berfformiad ysgolion yn erbyn perfformiad blaenorol a'r meincnodau allanol oedd ar gael ar hyn o bryd, a
- (b) phwysleisio'r angen am her reolaidd a pharhaus o'r asesiadau a monitro'r targedau i sicrhau y byddai perfformiad gwirioneddol yn cael ei fodloni ac o bosibl yn rhagori ar y targed a osodwyd.

Torrodd y pwyllgor yn y fan hon (10.45 a.m.) am egwyl â lluniaeth.

## 8 LLYWODRAETHWYR YSGOLION A CHYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi manylion rôl a chyfrifoldebau'r llywodraethwyr ysgol a chyrrff llywodraethu'r ysgolion, gan gynnwys y gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt gan yr awdurdod lleol, GwE a sefydliadau eraill. Esboniodd fod elfen o gyfrifoldeb ar gyfer dyletswyddau'r llywodraethwyr ysgol yn sefyll gyda'r awdurdodau addysg lleol, a chyfrifoldeb GwE oedd yr elfennau eraill. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau –

- bod yna bryderon mewn perthynas ag ymgysylltiad rhai llywodraethwyr unigol yn y rhaglen hyfforddiant a defnwyd gan yr Awdurdod. Ymddengys nad oedd rhai llywodraethwyr yn ymwybodol na allent ddiwallu'u rolau'n llawn os nad oeddent yn cymryd rhan yn y cyrsiau hyfforddiant gorfodol
- darparwyd amryw ddulliau hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr e.e. pecynnau hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein
- bu gan Sir Ddinbych Gymdeithas Cadeiryddion Llywodraethwyr. Mynychodd y Pennaeth Addysg gyfarfodydd y Fforwm i drafod gydag aelodau faterion cyfredol cysylltiedig ag addysg. Er gwaetha'r ffaith y cafodd y gwahoddiad i

fynychu cyfarfodydd Fforwm eu hymestyn i bob llywodraethwr ysgol, ni chafwyd nifer dda iawn yn y Fforwm.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, rhoddodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg, y Pennaeth Addysg a'r Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Addysg bod –

- presenoldeb mewn cyfarfodydd llywodraethwyr ysgol yn broblem mewn rhai ysgolion fel ag yr oedd diffyg cyflwyno ymddiheuriadau
- roedd lleoedd gwag ar rai cyrff llywodraethu. Gyda'r bwriad o oresgyn rhai o'r problemau a achoswyd gan leoedd gwag a maint bach rhai cyrff llywodraethu ysgolion, hysbysebodd y sir am gronfa o lywodraethwyr ac ymdrechodd i'w gosod mewn ysgolion
- cofnodion presenoldeb wedi'u cadw ar gyfer pob sesiwn hyfforddiant ac roedd y rhain yn cael eu harchwilio gyda chofnodion y sir ar lywodraethwyr ysgolion i sicrhau bod pob un ohonynt wedi mynychu eu digwyddiadau hyfforddiant gorfodol. Yn ogystal, cysylltwyd â chyrff llywodraethu gyda chais eu bod yn gwneud archwiliad sgiliau, wedyn gallai canlyniadau'r archwiliad hwn gael ei ddefnyddio gan y Cyrff Llywodraethu i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol
- mewn cyfarfod Cadeiryddion Llywodraethwyr diweddar, trafodwyd y posibilrwydd o gyfethol ymgynghorwyr nad oeddent yn pleidleisio ar gyrrff llywodraethu ysgolion
- roedd gan gyrrff llywodraethu ysgolion ystod eang o gyfrifoldebau'n amrywio o gynnal a chadw adeiladau, iechyd a diogelwch, diogelu a chyllidebu. Monitrodd Grŵp Monitro Safonau Ysgolion y Cyngor yn agos gyfrifoldebau'r cyrrff llywodraethu mewn perthynas â'r rhain. Gwahoddwyd cadeiryddion cyrrff llywodraethu ysgolion i fynychu cyfarfodydd y Grŵp pan oeddent yn monitro'u hysgol benodol. Yn ogystal, astudiodd gyfarfod rheolaidd yr awdurdod addysg lleol gyda GwE yr un meysydd
- o'r Pasg 2016 ymlaen, byddai llywodraethwyr Cymru'n disodli'r Cynllun Gwobr Efydd blaenorol gyda gwobr debyg arall
- rhoddwyd gwybod i'r Cyngor os oedd cleric i gorff llywodraethu ysgol yn absennol o gyfarfod am unrhyw reswm
- gwiriodd a heriodd yr awdurdod addysg lleol aelodaeth cyrrff llywodraethu i sicrhau eu bod yn dryloyw ac yn deg
- cafwyd canllawiau cyhoeddedig i gynorthwyo llywodraethwyr mewn perthynas â'u gwaith ar gyrrff llywodraethu ysgolion ac i ddeall y fframwaith moesegol yr oedd disgwyl iddynt lynu wrthynt
- rhoddwyd gwybod i'r awdurdod addysg lleol yn awtomatig petai llywodraethwr ysgol neu glerc yn ymddiswyddo er mwyn iddynt gychwyn proses recriwtio/penodi
- roedd gan yr awdurdod lleol bwerau ymyrryd hefyd i gymryd dros y gwaith o redeg ysgol os ystyrid bod y corff llywodraethu yn methu.

Rhoddodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg wybod ei fod o'r farn y dylai'r holl gynghorwyr sir fod yn aelodau o un corff llywodraethu ysgol o leiaf, yn ei farn ef, dylai hyn fod yn ofyniad gorfodol ar gyfer cynghorydd sir oherwydd byddai'n sicrhau bod ganddynt well dealltwriaeth o faterion cysylltiedig ag addysg ar lefel bersonol a chorfforaethol.

Canmolodd yr aelodau'r gefnogaeth a roddwyd gan y Cyngor i lywodraethwyr ysgol. Serch hynny, teimlwyd y dylai GwE gymryd rhan yn fwy gyda chyrff llywodraethu a'u gwaith. Fodd bynnag, teimlwyd y byddai'r gymhareb aelodau staff ar gyrff llywodraethu i rai'r cynrychiolwyr eraill yn elwa ar gael eu hastudio, yn enwedig mewn ysgolion gwledig bach, oherwydd y gallai gael effaith andwyol ar rediad yr ysgol.

Mewn ymateb i gais gan aelodau, aeth y swyddogion ati i ddarparu rhestrau i'r pwyllgor yn rhoi manylion nifer y cynghorwyr sir sy'n gwasanaethu ar gyrff llywodraethu ysgolion ac ar gyfer lleoedd gwag ar gyrff llywodraethu ysgolion.

Cytunodd y Cydlynnydd Craffu i ofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro ar oblygiadau ad-drefnu arfaethedig y llywodraeth leol ar benodi llywodraethwyr AALI rhwng nawr a'r dyddiad urddo'r awdurdodau newydd, a allai ddigwydd ym mis Ebrill 2020.

Yn dilyn ystyriaeth o'r wybodaeth –

**PENDERFYNODD** y pwyllgor, yn amodol ar yr arsylwadau uchod, derbyn a chymeradwyo'r gefnogaeth a'r hyfforddiant a ddarperir i Lywodraethwyr i'w cynorthwyo i gefnogi a herio ysgolion.

## 9 EICH LLAIS – ADRODDIAD CHWARTER 2 2015/16

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Reolwr - Cymorth Busnes (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn darparu trosolwg o'r canmoliaethau, awgrymiadau a chwynion a ddaeth i law dan bolisi adborth cwsmeriaid y Cyngor 'Eich Llais' yn ystod Chwarter 2 2015/16.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd yr adroddiad a rhoddodd y Prif Reolwr - Cymorth Busnes fanylion ar ei gynnwys, gyda phwyslais penodol ar y graffau tuedd dadansoddi 4 blynedd. Yn ystod ei gyflwyniad, esboniodd -

- fod y gwasanaeth wrthi'n gweithio ar ddiwygiadau i system Rheolwr Perthynas â Chwsmeriaid a fyddai'n hwyluso'r gwaith o lunio adroddiadau a data ystyrion
- bod y staff cwynion wedi bod yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau dros y misoedd diwethaf gyda'r bwriad o sefydlu'r ffeithiau y tu ôl i'r ffigurau, yn enwedig mewn perthynas â'r rhesymau am golli'r targedau gosod
- byddai nifer o gwynion drwy'r amser a fyddai'n colli'r dyddiadau targed gosod ar gyfer delio â chwynion. Fel arfer, byddai'r rhain yn gwynion cymhleth, weithiau'n amlwynebog, a fyddai oherwydd eu hunion natur yn gofyn am broses penderfyniadau manwl
- amrywiodd perfformiad mewn perthynas â Chwynion Cam 2 yn fwy yn ystod y flwyddyn bresennol na'r blynyddoedd blaenorol
- daeth 12 cwyn i law gan un unigolyn. Roedd y math hwn o gŵyn a chwynion yn erbyn uwch swyddogion yn ddrud iawn i'w hymchwilio oherwydd hynafedd y swyddog yr oedd ei angen i'w hymchwilio a'r cyfnod amser y byddai'n rhaid i'r swyddog hwnnw ymroi i'r broses.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, cyngorodd y swyddogion ar y canlynol –

- cydnabuwyd pob cwyn o'u derbyn, gan roi manylion yr amserlen ddisgwyliedig i ymateb i'r gŵyn
- roedd data ar gael ar sail Cymru gyfan sy'n cymharu perfformiad awdurdodau lleol wrth ddelio â chwynion
- cynigiwyd hyfforddiant i swyddogion ym mhob adran mewn perthynas â delio â chwynion a'r weithdrefn i'w dilyn
- weithiau gallai cwynion o natur weithredol gymryd mwy o amser i'w datrys yn sgil yr angen i ymweld â safleoedd penodol ac ati
- mewn perthynas â chwynion trallodus, gallai'r Cyngor ddefnyddio'i bolisi ar gyfer delio ag ymddygiad annerbyniol gan gwsmeriaid, gallai'r swyddogion hefyd gysylltu â Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am gymorth gyda chwynion o'r fath
- er bod mwyafrif y gwasanaethau wedi bod yn destun toriadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer y cwynion a ddaeth i law ar duedd am i lawr yn gyffredinol. Fodd bynnag, gallai effeithiau toriadau effeithlonrwydd gyiniwair eu hunain mewn ffordd wahanol h.y. gostyngiad mewn perfformiad gwasanaethau
- bydden nhw'n archwilio a gafodd yr holl ganmoliaethau a ddaeth i law gan y Penaethiaid Gwasanaeth, boed y rheiny'n uniongyrchol gan y cyhoedd neu drwy gynghorwyr, eu cofnodi ar y system
- cadarnhau bod y dyddiadau targed ar gyfer delio â chwynion wedi'u gosod gan y Cyngor fel rhan o'i waith wrth lunio'r Cynllun Corfforaethol.
- roedd hi'n llawer gwell gosod targedau uchel ac uchelgeisiol yn hytrach na rhai isel a fyddai'n hawdd eu bodloni
- bydden nhw'n gofyn i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth drafod y potensial i ostwng y trothwy ar gyfer cofrestru cwyn fel un 'trallodus' er y gallai hynny godi'r risg o fod yn groes i safbwyntiau'r Ombwdsmon
- byddai cwynion a ddaeth i law gan y Cyngor am bartner neu sefydliadau'n cael eu hailgyfeirio i'r sefydliad dan sylw. Serch hynny, rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i'r aelodau y byddai am wybod am gwynion am sefydliadau partner oedd yn cyflwyno gwasanaethau ar ran y cyngor, megis GwE, Civica ac ati.
- er bod cymhlethdodau penodol ynghlwm â delio â chwynion iechyd a gofal cymdeithasol integredig, h.y. wrth ymateb, roedd dulliau i ddelio â'r mathau hyn o gŵynion h.y. mewn ymateb, roedd angen i'r ddau barti ystyried sut roedd yr achwynydd yn teimlo am y mater.

Roedd gan yr aelodau bryderon am wasanaeth ymholiadau cynghorydd EMMA a chyfeillgarwch y system newydd hwn i ddefnyddwyr. Cytunodd y swyddogion godi'r pryder hwn gyda'r swyddog perthnasol.

Ar ôl ystyried y wybodaeth –

**PENDERFYNODD** yr aelodau yn amodol ar yr arsylwadau uchod a datblygu'r camau a nodwyd, i gael y wybodaeth am berfformiad y Cyngor wrth ddelio â chwynion yn ystod Chwarter 2 2015/16 yn unol â pholisi adborth cwsmeriaid 'Eich Llais'.

## 10 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn am adolygiad yr aelodau o raglen waith y pwyllgor a darparu diweddariad ar faterion perthnasol.

Ymhelaethodd y Cydlynnydd Craffu ar eitemau sydd ar ddod i'w hystyried yng nghyfarfodydd y dyfodol ac ymatebodd i gwestiynau'r aelodau wedi hynny. Adroddodd ar y trefniadau craffu arfaethedig ar gyfer GwE a'r adroddiadau cysylltiedig i'w hymgorffori yn y rhaglen waith ynghyd â chynnwys aelodau cyfetholedig yn hynny o beth. Nododd y pwyllgor hefyd fod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi rhoi cyfarwyddyd i'r pwyllgor graffu cynlluniau BT i ymestyn band eang ar draws y sir yn dilyn cais gan y Prif Weithredwr sydd wedi'i threfnu ar gyfer mis Ebrill. Yn olaf, gofynnwyd am fynegiannau o ddiddordeb i gael cynrychiolydd pwyllgor i ddisodli'r Cynghorydd Colin Hughes ar y Grŵp Cydraddoldebau Corfforaethol.

### ***PENDERFYNWYD—***

- (a) *cymeradwyo'r blaenraglen waith fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a bod yr Aelodau Arweiniol perthnasol yn cael eu gwahodd i fynychu ar gyfer eu heitemau penodol hwy yn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth, a*
- (b) *phenodi'r Cynghorwyr Arwel Roberts a Colin Hughes yn gynrychiolwyr ac yn ddirprwy gynrychiolwyr Pwyllgor ar y Grŵp Cydraddoldebau Corfforaethol.*

## 11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Adroddodd cynrychiolwyr y pwyllgor ar eu presenoldeb mewn cyfarfodydd fel a ganlyn –

Rhoddodd y Cynghorydd Richard Davies wybod am newidiadau i'r Gwasanaeth Cefnogi Cwsmeriaid ac Addysg o ganlyniad i'r ad-drefnu gweithredol diweddar a'r trefniadau dilynol ar gyfer cyfarfod y Grŵp Her Perfformiad Gwasanaeth newydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gareth Sandilands at gyfarfod diwethaf y Grŵp Buddsoddi Strategol ac yn ystod hwnnw, cytunwyd eu hargymhellion ar gyfer prosiectau cyfalaf i'w cyflwyno i'r Cabinet.

Adroddodd y Cynghorydd Arwel Roberts ar y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion diwethaf oedd yn cynnwys Ysgol Bryn Hyfryd ac Ysgol Emmanuel a fu'n ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth.

Crynhodd y Cynghorydd Meirick Davies y prif bwyntiau trafod a gododd yn y cyfarfod Her Perfformiad Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd diwethaf.

***PENDERFYNWYD*** *nodir adroddiadau geiriol gan aelodau a fynychodd y cyfarfodydd.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.10 p.m

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Archwilio Perfformiad</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>17 Mawrth 2016</b>
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad/ Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio/ Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Adroddiad Perfformiad y Cynllun Corfforaethol Chwarter 3 – 2015/16</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 Mae'r papur hwn yn cyflwyno diweddariad ar ddarpariaeth Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 3 2015/16.
- 1.2 Mae Atodiad 1 yn darparu'r Crynodebau Gweithredol ar gyfer chwarter 3, sy'n cynnwys cyflawniadau yn chwarter 3.
- 1.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys yr adroddiad chwarterol llawn a gynhyrchwyd gan System Rheoli Perfformiad Verto, gan ganolbwyntio ar yr eithriadau yn unig.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 Darparu gwybodaeth am gynnydd y Cyngor ar ddiwedd chwarter 3, 2015-16 i gyflawni canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol.
- 2.2 Mae adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella.
- 2.3 Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd, yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet ac yn llunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol i werthuso cynnydd.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn defnyddio'r adroddiad hwn i nodi meysydd gwasanaeth penodol (neu feysydd gwaith) a fyddai'n elwa o archwilio manwl i wella canlyniadau ar gyfer dinasyddion a pherfformiad cyffredinol y Cyngor, ac i hwyluso cyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

#### **4. Manylion yr Adroddiad**

- 4.1 Mae'r Crynodeb Gweithredol (Atodiad 1) yn cynnwys dadansoddiad o eithriadau allweddol, lle awgrymir y rhoddir sylw.
- 4.2 Mae Adroddiad Perfformiad Chwarter 3, 2015-16 (Atodiad 2) yn edrych ar Gynllun Corfforaethol 2012-17 ac mae'n rhoi asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth am y sefyllfa bresennol.
- 4.3 Mae'r eithriadau hyn wedi cael eu hamlygu fel a ganlyn: Mae nifer o ddangosyddion a mesurau wedi'u hamlygu fel 'Coch' o fewn yr adroddiad. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu nodi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' neu lle mae problem gyda'r data sydd angen ei godi.
- 4.4 Mae ymatebion dangosyddion Arolwg Preswylwyr 2015 sy'n llywio canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol wedi cael eu cynnwys. Mae adroddiad yn cael ei lunio ar y canlyniadau llawn.
- 4.5 Mae Bwrdd Gwella Cynllun Corfforaethol wedi cael ei sefydlu i oruchwylio cwblhau'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun Corfforaethol yn ystod y 18 mis diwethaf o'r weinyddiaeth.

#### **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Mae'r adroddiad hwn am ein cynnydd wrth ddarparu'r Cynllun Corfforaethol. Dylai unrhyw benderfyniad a wneir gyfrannu at ddarpariaeth lwyddiannus o'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

#### **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn amlinellu faint o arian yn ychwanegol y mae'r cyngor yn bwriadu ei fuddsoddi ym mhob blaenoriaeth gorfforaethol yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Ar wahân i'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw, cymerir yn ganiataol y gellir cyflawni'r cynllun corfforaethol o fewn y cyllidebau presennol.

#### **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

- 7.1 Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Corfforaethol a'i gyflwyno i'r Cyngor ar 9 Hydref 2012. Nid oes angen asesu'r adroddiad hwn ymhellach gan na fydd yr argymhellion o'i fewn ag effaith uniongyrchol ar ein staff nac ar ein cymunedau.

#### **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

- 8.1 Mae'r wybodaeth angenrheidiol i gynhyrchu'r adroddiad hwn yn dod o wasanaethau, ac mae'r eithriadau drafft wedi eu trafod a'u dosbarthu i alluogi'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gymryd unrhyw gamau cywirol yr ystyriant yn angenrheidiol er mwyn cynhyrchu'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Cabinet.



## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes angen datganiad Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae gennym fframwaith rheoli perfformiad cadarn, proses Herio Perfformiad Gwasanaethau gadarn a Phwyllgor Archwilio Perfformiad cryf.

10.2 Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na fyddai'r cyngor yn gallu cyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi ei thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

11.2 Mae erthyglau 6.1 a 6.3.4(b) yn amlinellu rôl y swyddogaeth archwilio o ran monitro a rheoli perfformiad.

### **Swyddog Cyswllt:**

Swyddog Cynllunio Strategol

Ffôn: 01824 708076

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



# Appendix 1 – Summary Corporate Performance Report

**QUARTER 3, 2015-16**

This document provides a SUMMARY of performance against the council's corporate priorities at the end of quarter 3, 2015-16

---

## CONTENTS

<b>CONTENTS</b> .....	<b>2</b>
<b>INTRODUCTION &amp; SUMMARY</b> .....	<b>3</b>
<b>OUTCOME SUMMARY</b> .....	<b>3</b>
<i>DEVELOPING THE LOCAL ECONOMY</i> .....	3
<i>IMPROVING PERFORMANCE IN EDUCATION &amp; THE QUALITY OF OUR SCHOOL BUILDINGS</i> .....	3
<i>IMPROVING OUR ROADS</i> .....	3
<i>VULNERABLE PEOPLE ARE PROTECTED &amp; ABLE TO LIVE AS INDEPENDENTLY AS POSSIBLE</i> .....	3
<i>CLEAN &amp; TIDY STREETS</i> .....	3
<i>ENSURING ACCESS TO GOOD QUALITY HOUSING</i> .....	3
<i>MODERNISING THE COUNCIL TO BE EFFICIENT &amp; IMPROVE SERVICES FOR CUSTOMERS</i> .....	4
<b>KEY PERFORMANCE SUMMARY</b> .....	<b>4</b>
<i>THE CORPORATE PLAN</i> .....	4

## INTRODUCTION & SUMMARY

This performance report looks at the Corporate Plan 2012-17. It provides an evidence-based assessment of the current position. Below is a summary of the key issues identified.

### OUTCOME SUMMARY

This is the summary position for each outcome in the Corporate Plan as at the end of Quarter 3 (December 31<sup>st</sup> 2015). The overall evaluation for each outcome has been determined by taking account of the indicators, performance measures, and improvement activity.

#### DEVELOPING THE LOCAL ECONOMY

<a href="#">Outcome 1</a>	Infrastructure for growth	ACCEPTABLE
<a href="#">Outcome 2</a>	Supported and connected businesses	ACCEPTABLE
<a href="#">Outcome 3</a>	Opportunities for growth	ACCEPTABLE
<a href="#">Outcome 4</a>	High quality skilled workforce	GOOD
<a href="#">Outcome 5</a>	Vibrant towns and communities	ACCEPTABLE
<a href="#">Outcome 6</a>	Well-promoted Denbighshire	EXCELLENT

#### IMPROVING PERFORMANCE IN EDUCATION & THE QUALITY OF OUR SCHOOL BUILDINGS

<a href="#">Outcome 7</a>	Students achieve their potential	ACCEPTABLE
---------------------------	----------------------------------	------------

#### IMPROVING OUR ROADS

<a href="#">Outcome 8</a>	Improving our roads	ACCEPTABLE
---------------------------	---------------------	------------

#### VULNERABLE PEOPLE ARE PROTECTED & ABLE TO LIVE AS INDEPENDENTLY AS POSSIBLE

<a href="#">Outcome 9</a>	Independent vulnerable people	GOOD
<a href="#">Outcome 10</a>	Vulnerable people are protected	GOOD

#### CLEAN & TIDY STREETS

<a href="#">Outcome 11</a>	Clean and tidy streets	GOOD
----------------------------	------------------------	------

#### ENSURING ACCESS TO GOOD QUALITY HOUSING

<a href="#">Outcome 12</a>	Access to good quality housing	GOOD
----------------------------	--------------------------------	------

## MODERNISING THE COUNCIL TO BE EFFICIENT & IMPROVE SERVICES FOR CUSTOMERS

**Outcome 13** Services will continue to improve

ACCEPTABLE

**Outcome 14** Flexible and efficient workforce

ACCEPTABLE

### KEY PERFORMANCE SUMMARY

### THE CORPORATE PLAN

1. [The percentage of the population who cannot live independently](#) (aged 18 or over). We are working to reduce the number of new admissions to residential care homes through the use of both modern and traditional care packages in the home and by working with people to maximise their independence. Overall, this means the number of people we support in residential care is diminishing, but will take a number of years to bring the total to an acceptable level due to the long term nature of the services already being provided and the time delays in developing new Extra Care Schemes. We had an ambitious plan to reduce the number of people needing to be supported by the council in residential care by 200, from 815 to 615, during the period of the current Corporate Plan. The figure at the end of quarter 3 stood at 645, so it is clear that much progress has been made with respect to this ambition.
2. [QLI-PLA006 is a quarterly local indicator](#). This indicator shows how many dwellings have been granted planning permission and out of those how many are 'affordable'. A large proportion of the quarter 3 "additional dwellings" were the 83 units granted consent at the HM Stanley site in St. Asaph. No affordable units were secured as part of this permission due to viability of the development which related to the abnormal costs of restoring the Listed Buildings on the site.
3. Key activities that support the Corporate Plan's [Housing Outcome](#) have been reviewed and will reported from quarter 4 onwards. However, the Corporate Housing Strategy and associated detailed Action Plan was agreed at Full Council in December 2015.
4. The [number of calendar days taken to let empty properties \(council stock only\)](#) - general needs and housing for older people for quarter 3 increased to 61.2 calendar days. This increase, however, reflects the service's commitment to ensuring that properties are let in a fit state and of better quality to avoid repeat visits. The focus being on ensuring tenant's needs are met when allocating empty properties and that time is taken to ensure that the right properties are allocated to the right tenants. An improvement plan is in place and it is anticipated that there will be a decrease in re-let times, not only as properties are let more efficiently and effectively in the future but also as tenancies will be more sustainable in the longer term as a result of this focus.

5. [Validated performance data for 2014-15 academic year](#) has shown a decline in some key attainment indicators. In particular, this means that the percentage of pupils achieving the level 2 threshold (including Welsh/English and maths) and core subject indicator at Key Stage 4 are again considered to be a priority for improvement.
6. [The total rate per 1,000 pupils of fixed-term exclusions](#) from local authority maintained schools replaces previous measures around the number of exclusions, and the number of days lost, which are no longer published by Welsh Government. Looking at the data for 2013/14 academic year, there were 563 fixed-term exclusions lasting 5 days or less, and 17 lasting over 5 days. This is a 14% increase on 2012/13. Data for 2014/15 academic year is not validated until April / May."
7. Corporate [sickness absence](#) levels continue to be a priority for improvement at 6.04 days. The targets for the reduction in sickness absence are challenging and overall the levels are reducing. It should be noted that the Council has lower sickness absence levels overall than most other local authorities in Wales, despite failing to meet its own lower, more ambitious target at this time.
8. We remain unable to provide information for [carbon emissions](#) at present. All the Welsh authorities have been effected, some more than others, by the inability of British Gas to provide accurate electricity bills. The data unit Wales is aware of the issues with British Gas. Corrected bills are now coming through and we should be able to report last year's consumption next month. Welsh authorities will be changing suppliers from April 1st.
9. [ICT106i, The percentage of staff \(home based\)](#) who have been equipped for agile working. There has been a slight delay in progress in Q3 but the project is now back on track.
10. In quarter 3, only 89% of all [external stage 1 complaints](#) received by the council were responded to within corporate timescales. There was one complaint in Education, it was a complex matter involving several officers and exceeded timescale. Three complaints in Highways and Environmental Services exceeded timescale, this brought their overall performance down to 91%. Planning and Public Protection's performance has dropped to 79% in Q3 (23 out of 29 complaints responded within timescale). This is being addressed by the service and we would hope to see an improvement in Q4. Performance against this indicator is automatically reported to and monitored by Scrutiny every quarter.
11. The [percentage of staff receiving a performance appraisal](#) has increased to 90% as at the end of quarter 3. There have been changes made to information in relation to appraisals being captured on the system which should help ensure that the completion rates continue to improve. Heads of service are now receiving monthly updates on their figures. The Senior Leadership Team (SLT) are committed to ensuring accurate data capture and that 100% is achieved.

### ACHIEVEMENTS IN QUARTER 3

12. There was a significant improvement in the percentage of damaged roads and pavements made safe within target time to 96.2%. During quarter 3 there were 104 defects logged, 100 of which were completed within target time. Of the four not completed within target time, one was unavoidable due to events beyond DCC control.
13. The former Grange Hotel in Rhyl is one of the 'top 20' eye sore sites in Denbighshire. As a result of actions by Officers working with the owner the buildings have now been demolished and the site has been cleared and left tidy. Officers will continue to monitor the condition of the site and press the owner to progress the proposed development.
14. The Corporate Housing Strategy and detailed Action Plan was agreed by Full Council in December 2015. The Council now has an adopted Housing Strategy, with 5 Outcome Themes and a detailed robust Action Plan, identifying responsible Head of Service and Lead Members. Regular updates on progress with the actions will be provided to Lead Members and Scrutiny as appropriate.
15. The Denbighshire Excellence Awards 2015 event was held in quarter 3 to recognise the efforts of employees who have made a difference to our Council and to Denbighshire residents.
16. Rhyl's new One Stop Shop - the Council has completed its transformation of the Rhyl Library building at Church Street and has now opened the town's brand new One Stop Shop.
17. Developed the leisure offer along the coast with the launch of the NOVA centre, Prestatyn, to provide first class leisure facilities that will encourage more people to get involved in activities, providing high quality settings for the benefit of the local community and visitors.





# Appendix 2 – Corporate Performance Report

**QUARTER 3, 2015-16**

This document provides and update on performance against the council's corporate priorities at the end of quarter 3, 2015-16

## CONTENTS

<b>CONTENTS</b> .....	<b>8</b>
<b>KEY</b> .....	<b>9</b>
<b>THE COLOURS</b> .....	<b>9</b>
<b>THE EVALUATION</b> .....	<b>9</b>
<b>APPENDIX 2 –QUARTER 3 PERFORMANCE REPORT</b> .....	<b>10</b>
<b><u>PRIORITY – DEVELOPING THE LOCAL ECONOMY</u></b> .....	<b>10</b>
<b><u>PRIORITY – IMPROVING PERFORMANCE IN EDUCATION &amp; THE QUALITY OF OUR SCHOOL BUILDINGS</u></b> .....	<b>17</b>
<b><u>PRIORITY – IMPROVING OUR ROADS</u></b> .....	<b>22</b>
<b><u>PRIORITY – VULNERABLE PEOPLE ARE PROTECTED &amp; ABLE TO LIVE AS INDEPENDENTLY AS POSSIBLE</u></b> .....	<b>24</b>
